# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 16 Rhagfyr 2025 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dewi Jones |
| **Swyddog Cyswllt:** | Debbie A W Jones |
| **Teitl yr Eitem:** | Gwelliannau sylweddol i Ysgol Tryfan – Cynyddu Cyllideb Cyfalaf y Prosiect |

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

---

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1 Ceisir caniatâd y Cabinet i gynyddu cyllideb y prosiect i wneud gwelliannau sylweddol i adeiladau a safle Ysgol Tryfan ym Mangor er mwyn cyfarch costau chwyddiant a chynnydd cyffredinol mewn costau deunyddiau adeiladu ers sefydlu cyllideb wreiddiol y prosiect yn 2018, gan wireddu hynny drwy drosglwyddo £1.96m o Gynllun Rheoli Asedau'r Cyngor er mwyn cyfarch cyfanswm y costau a ragwelir i wireddu'r prosiect yn Ysgol Tryfan.

**2 CEFNDIR**

2.1 Mae ymrwymiad gan y Cyngor i fuddsoddi yn y sector uwchradd ym Mangor ers 2018, a hynny fel dilyniant i'r buddsoddiad cyfalaf sylweddol fu yn y gyfundrefn gynradd ym Mangor drwy amlen ariannol Band A, ac yn fwy diweddar Band B, Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif gynt), Llywodraeth Cymru**.**

2.2 Wrth gyflwyno cais 'Rhaglen Amlinellol Strategol am arian o'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif (Band B) i Lywodraeth Cymru yn 2018, clustnodwyd cyllideb o £18m ar gyfer buddsoddi mewn addysg uwchradd ym Mangor, ac yn benodol Ysgol Tryfan, fel rhan o raglen cyfalaf gwerth £56.14m gyda chyfraniad o £37.46m gan Lywodraeth Cymru a £18.68m o arian cyfatebol gan Gyngor Gwynedd.

2.3 Roedd y weledigaeth wreiddiol a sefydlwyd yn 2018 yn nodi addewid o fuddsoddiad a gwelliannau sylweddol i Ysgol Tryfan ar y safle presennol, gan gynnwys adeiladau newydd a gwelliannau sylweddol i rai adeiladau ynghyd ag adnoddau a chyfleusterau chwaraeon.

2.4 Ers i gyllideb wreiddiol y prosiect gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru fel rhan o Raglen Amlinellol Strategol Band B (RhAS) a gyflwynwyd er cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru yn 2018, gwelwyd cynnydd sylweddol mewn chwyddiant ynghyd â chost deunyddiau adeiladu, gan arwain at gostau sylweddol uwch i gyflawni prosiectau cyfalaf yn gyffredinol.

2.5 Ym mis Ebrill 2025, derbyniwyd cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i'r cam cyntaf i ryddhau ymrwymiad ariannol y prosiect ganddynt, yn dilyn cyflwyno achos busnes amlinellol strategol (AAS) ar gyfer buddsoddi £18 miliwn i gynyddu capasiti Ysgol Tryfan i 650 a'i thrawsnewid yn safle modern a chyfoes, sy'n cwrdd â gofynion Cwricwlwm i Gymru, a lleihau cylch oes carbon adeiladau'r ysgol.

**3 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

3.1 Yn dilyn cyflwyno'r Achos Busnes ASS (Cam 1), bu i'r Tîm Dylunio lunio amcan gostau ar gyfer cyflawni'r prosiect yn unol â'r briff, gydag amcan cychwynnol y costau hynny oddeutu £30m.

3.2 Yn dilyn hynny, bu cydweithio rhwng y Tîm Dylunio, y Tîm Datblygu Eiddo, yr Adran Addysg ac Ysgol Tryfan i ystyried opsiynau posib ar gyfer addasu'r briff a lleihau costau. Yn dilyn gwaith pellach ar amcan gostau'r opsiynau, rhagwelir yr angen i gynyddu cyllideb y prosiect i £23.6 miliwn.

3.3 Bydd y gyllideb ddiwygiedig yn galluogi cynyddu capasiti'r ysgol i 650, trwy greu adeilad newydd ynghyd â gwelliannau ac addasiadau i adeiladau eraill, ynghyd â gweithio tuag at gwrdd â thargedau carbon Llywodraeth Cymru.

3.4 Pe byddai cynnydd yng nghyllideb cyfalaf y prosiect, byddai angen i Gyngor Gwynedd gyfarch 35% o'r gyllideb ychwanegol. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i neilltuo £6.3m fel arian cyfatebol ar gyfer gwireddu'r prosiect. Pe byddai'r Cabinet yn cymeradwyo cynyddu cyllideb y prosiect i £23.6m, yna byddai angen i'r Cyngor ymrwymo i gyfrannu £1.96m ychwanegol tuag at gostau'r prosiect, sef cyfanswm o £8.26m.

| | **Cyllideb sydd ar gael heddiw** | **Cyllideb sydd ei angen yn ychwanegol** | **Cyllideb yn dilyn amrywio'r gyllideb** |
|---|---|---|---|
| **Cyfraniad Cyngor Gwynedd (35%)** | £6,300,000 | £1,960,000 | **£8,260,000** |
| **Cyfraniad Llywodraeth Cymru (65%)** | £11,700,000 | £3,640,000 | **£15,340,000** |
| **Cyfanswm** | **£18,000,000** | **£5,600,000** | **£23,600,000** |

**4 CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

4.1 Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet, byddwn yn paratoi achos fusnes amlinellol (Cam 2) ac achos fusnes llawn (Cam 3) yn unol â chanllawiau Pum Cam y Trysorlys, i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd Ebrill 2026.

4.2 Bydd yn ofynnol i'r achos fusnes gynnwys yr holl wybodaeth am gostau arfaethedig y prosiect, a beth yw'r ffynhonnell gyllidol ar eu cyfer er mwyn sicrhau cymeradwyaeth i ryddhau'r cyllid perthnasol o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i gyflawni gwelliannu sylweddol i Ysgol Tryfan.

4.3 Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr achos fusnes mewn cyfarfod penodol yn mis Mai 2026.

**5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

5.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd , amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddwn yn gwella llesiant yn "Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028". Mae argymhellion yr adroddiad yma wedi eu datblygu a pharatoi o fewn fframwaith y Ddeddf a bwriedir rhoddi ystyriaeth cyson i 'r amcanion ac egwyddorion yma wrth symud y cynllun ymlaen.

---

**5. Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

*"Mae lefel yr ariannu ychwanegol sydd ei angen yn golygu mai penderfyniad Cabinet yw cytuno i gyflwyno arian pellach i gyfarch yr ymateb i'r cynnydd costau yng nghynllun Ysgol Tryfan."*

**Y Pennaeth Cyllid:**

*"Mae swyddogion yr Adran Gyllid wedi cydweithio gydag awdur yr adroddiad ac rwyf yn fodlon â chywirdeb y wybodaeth ariannol sydd wedi ei gynnwys. Gallaf gadarnhau fod digon o hyblygrwydd o fewn yr adnoddau cyfalaf sydd ar gael i ariannu'r cynnydd yma os mai dyna yw dymuniad y Cabinet, ond wrth gwrs mae hyn yn golygu bydd llai o adnoddau ar gael i brosiectau cyfalaf eraill."*